# Ysgol y Bannau

Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni
Adroddiad Blwyddyn Ysgol
2024 - 2025

Annual Governors' Report to Parents
Report on School Year
2024 – 2025

Ysgol y Bannau
Penlan
Aberhonddu
Powys
LD3 9SR

Annwyl rieni,
Mae'n bleser o'r mwyaf gen i i gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni Ysgol y Bannau am y flwyddyn academaidd, 2024-2025. Hyderaf y byddwch yn ei weld yn ddiddorol ac yn gynhwysfawr.. Hoffwn ddiolch i'r pennaeth, y staff dysgu a holl staff ategol yr ysgol am eu hymroddiad a'i gwaith diflino dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae bob un aelod o'r corff llywodraethu wedi ymroi yn llawn i'w rôl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn awyddus i symud Ysgol y Bannau yn ei blaen. Roedd yn hyfryd cael cyfleoedd yn ystod y flwyddyn i gael ail-ymweld â'r ysgol a chyfarfod y staff a'r disgyblon wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor. Hoffwn i a fy nghyd-lywodraethwyr ddiolch i chi, rieni, gwarchodwyr, neiniau a theidiau'r ysgol ac wrth gwrs, ein plant, am eich cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch o galon hefyd I am eu holl waith diflino i barhau i godi arian i'r ysgol. Rydyn ni wedi bod yn ffodus unwaith yn rhagor i gael adnoddau ychwanegol gwerthfawr diolch i waith caled Cyfeillion yr Ysgol. Cymuned yw Ysgol y Bannau. Fel Ysgol, mae'n braf gwybod ein bod yn parhau i fod fel teulu agos. Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda'r ysgol er mwyn sicrhau bod eich plant yn derbyn addysg safonol tra yn Ysgol y Bannau. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am waith y Corff Llywodraethu yna cysylltwch gyda'r swyddfa.

I am pleased to present to you the 2024-2025 Governing Body's Annual Report to parents at Ysgol y Bannau. I hope you will find it both informative and interesting. I would like to thank the headteacher and all of the teaching and support staff for their commitment and hard work over the last academic year. The members of the Governing body are still fully committed to their role. They bring a range of skills and experience to the governing of the school. The Governing Body visited the school on quite a few occasions during the last year. It's wonderful being able to visit the school and meet the staff and pupils once again. I would like to thank all of you, parents, carers, grandparents and your children for your continued support of the school over the last year. I would like to thank the Friends of the School for all their fundraising efforts through the year, without this we would not be able to buy much needed resources for the school. Ysgol y Bannau is a community working together to ensure the best possible provision for our children. If anyone has any questions regarding the work of the Governing Body please contact me through the school.

Mr. R. Ridge-Evans

Pwy yw'r Llywodraethwyr Presennol?

Mae aelodau'r bwrdd llywodraethol yn adlewyrchu trawsdoriad yn gymuned lleol.
Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am reoli polisiau'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Mae disgywl i'r Llywodraethwyr fynychu hyfforddiant.
Mae'r Bwrdd Llywodraethol yn cyfarfod unwaith pob hanner tymor. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod gan y bwrdd llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion , datblygiadau cwricwlaidd , materion staffio , materion Iechyd a Diogelwch ag ati.
Mae pob aelod o'r Bwrdd Llywodraethol (gan eithrio'r Pennaeth) yn aros ar y bwrdd am 4 blynedd.
Dyma enwau llywodraethwyr presennol yr ysgol.

*Who are the Present Governors?*

*The composition of the Governing Body reflects the broad spectrum of the community.*
*The Chairperson is elected at the start of the school year. Governors are responsible for the management of the school legislation and policies of the LEA.*
*The Governing Body of Ysgol y Bannau meets every half term. The Headteacher provides regular detailed reports regarding staffing, curriculum development, standards, finance and health and safety for example. Governors attend training courses throughout the year. Governors serve on the Governing Body for a period of four years.*

*Below is a list of the present Governors.*

Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors:
Llywodraethwyr / Clerk to the Governors: Mrs. Jade Land

Bydd rhieni yn cael gwybod am unrhyw etholiadau ar gyfer rhiant lywodraethwyr gan Glerc y Corff Llywodraethol.
Parents will be informed of any elections for parent governors by the Clerk of the Governing Body

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraethwr Cymunedol<br>Community Governor | Tim Morgan | 10/11/2025 |
| Llywodraethwr Cymunedol<br>Community Governor | Angharad Woodland | 08/03/2027 |
| Llywodraethwr Cymunedol<br>Community Governor | Donna Watson | 27/10/2026 |
| Rhiant Lywodraethwr<br>Parent Governor | Ffion Bevan | 01/10/2027 |
| Rhiant Lywodraethwr<br>Parent Governor | Rhian Davies | 11/09/2026 |
| Rhiant Lywodraethwr<br>Parent Governor | Lidia Dykes | 08/03/2027 |
| Rhiant Lywodraethwr<br>Parent Governor | Rose Linn-Pearl | 01/10/2027 |
| Llywodraeth Leol<br>Local Authority | Sian Rees | 01/02/2028 |
| Llywodraeth Leol<br>Local Authority | Robert Thomas | 16/09/2025 |
| Minor Authority Governor | Sian Drinan | 22/05/2026 |
| Athro Lywodraethwr Teacher Governor | Matthew Broad | 25/11/2025 |
| LlywodraethwrStaff Cynorthwyol<br>Support Staff Governor | Lauren Jenkins | 01/02/2028 |
| Arsylwr Staff<br>Staff Observer | Kathryn Elias | |
| Clerc<br>Clerk | Jade Land | |
| Prifathrawes<br>Head teacher | Marion Evans | |

## Staff yr Ysgol

| | |
|---|---|
| Ysgrifenyddes | Mrs. Lauren Jenkins |
| Pennaeth | Miss Marion Evans |
| Athrawon | Mrs. Lisa John |
| | Mrs. Kathryn Elias |
| | Mrs. Eirian Davies |
| | Mr. Matthew Broad |
| Gweinyddesau Dosbarth | Mrs,Catrin Evans |
| | Mrs. Sian Gwynfor |
| | Mrs. Llinos Rees |
| Dreigiau Bach y Bannau | Mrs Meriel Gardner |
| | Miss Enid Jones |
| | Mrs. Eleri Phillips |
| | Mrs Jeanette Williams |
| Gofalwr | Mr. Mark Jones |
| Goruwchwylwyr Cinio | Mrs. Margaret Christine Tebbitt |
| Glanheuwyr | Mrs.Sue Potter |
| | Mrs.Evelyn Hardwick |

## Teaching Hours

| | |
|---|---|
| Foundation Phase Morning Session | 9.10am - 12.00pm |
| KS 2 Morning Session | 9.10am - 12.30pm |
| Foundation Phase Afternoon Session | 1.15pm - 3.30pm |
| KS2 Afternoon Session | 1.30pm - 3.30pm |
| Breakfast Club | 8.00am - 9.00am |
| Clwb Adran | 3.30pm - 4.45pm |
| Y Gorlan | 3.30pm - 5.30pm |

| Tymor yr Hydref / Autumn Term 2025 | |
|---|---|
| Tymor yn dechrau / *Start of term* | 01/09/2025 |
| Hanner tymor yn dechrau / *Half term starts* | 27/10/2025 |
| Hanner tymor yn gorffen / *Half term ends* | 31/10/2025 |
| Diwedd tymor / *End of term* | 19/12/2025 |
| *Non Pupil Days* | 01/09/2025<br>24/10/2025<br>03/11/2025 |
| **Tymor y Gwanwyn / Spring Term 2026** | |
| Tymor yn dechrau / *Start of term* | 05/01/2026 |
| Hanner tymor yn dechrau / *Half term starts* | 16/02/2026 |
| Hanner tymor yn gorffen / *Half term ends* | 20/02/2026 |
| Diwedd tymor / *End of term* | 27/03/2026 |
| *Non Pupil Days* | 05/01/2026<br>06/03/2026(Additional?) |
| **Tymor yr Haf / Summer Term 2026** | |
| Tymor yn dechrau / *Start of term* | 13/04/2026 |
| Hanner tymor yn dechrau / *Half term starts* | 25/05/2026 |
| Hanner tymor yn gorffen / *Half term ends* | 29/05/2026 |
| Diwedd tymor / *End of term* | 17/07/2026 |
| *Non Pupil Days* | 17/07/2026 |

**Useful dates:**

- **Good Friday** - Friday 03 April 2026
- **Easter Monday** - Monday 06 April 2026
- **May Day Bank Holiday** - Monday 04 May 2026
- **Spring Bank Holiday** - Monday 25 May 2026
- **Royal Welsh Show** - Monday 20 July - Thursday 23 July 2026

**Blwyddyn 6 / Year 6**

Gadawodd 18 o blant ym mis Gorffennaf 2024 , gyda'r plant yn mynychu Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Ysgol Uwchradd Ystalyfera, Ysgol Uwchradd Crughywel ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed

*12 year 6 pupils left Ysgol y Bannau in July and are now attending Brecon High School, Ysgol Uwchradd Ystalyfera , Crickhowell Secondary School and Gwernyfed Secondary School .*

Y Dosbarth Derbyn/ The Reception Class

Dechreuodd 8 plentyn yn ein dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025.

8 children started in our Reception class in September 2025

**Cynllun Mynediad i'r Ysgol**

Fel Ysgol, rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau a phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd.

*School Accessibility Plan*

*Good quality learning through good quality teaching and support is provided by all in the school. There is an ethos of understanding the disabilities of pupils. Accessibility issues are constantly*
*reviewed and discussed with different agencies to meet the needs of every child and young people within the National Curriculum framework.*

**Polisiau Ysgol**

Mae'r ysgol yn adolygu ei pherfformiad yn gyson. Rydym yn adolygu ein polisiau yn rheolaidd.

School Policies

*The School regularly examines and assesses the success of all procedures. We regularly review our policies.*

**Llawlyfr yr Ysgol**

Mae Llawlyfr yr Ysgol ar gael o Swyddfa'r Ysgol

*School Handbook*

*The school handbook is available from the school office.*

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd cwyn yn erbyn yr ysgol yn 2024-2025

*Complaints*

*No complaints were made against the school in 2024 – 2025*

**Adrodd i Rieni**

Cynheliwyd dwy noson rieni llynedd. Cynhyrchwyd adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob plentyn yn ystod tymor yr Haf ac anfonwyd drwy e-bost.

*Reporting to Parents*

*Two parent evenings were held during the year. Written reports for each child were also produced and sent home to parents in the summer term via e-mail.*

**Clybiau Allgyrsiol**

Clwb Coginio
Clwb Chwaraeon
Clwb Garddio
Clwb Gemau Bwrdd
Clwb Digidol

*Exra Curricular Clubs*

*Cookery Club*
*Sports Club*
*Gardening Club*
*Board Games Club*
*Digital Club*

**Casgliad Data yr Ysgol**

Mae'r Ysgol yn casglu data gan deuluoedd wrth i blant ddechrau yn y Derbyn. Yn ogystal a hyn mae'n rhaid casglu gwybodaeth yn ôl gofynion yr awdurdod yn ystod y flwyddyn. Rydym yn sicrhau bod y data yma yn cael ei gadw'n ddiogel ar systemau cyfrifiadur yr ysgol. Mae gan unigolion yr hawl i weld y wybodaeth sydd yn cael ei gadw yn yr ysgol.

*Fair Processing Notice*

*The school collects information about pupils and their parents / guardians on admission to school and for specific purposes during the school year. Every attempt is made to make sure the data stored is accurate and safe whilst stored on the school's computerised system. All individuals have rights of access to personal information held on them.*

Datganiad Cwricwlaidd

Curriculum Statement

***Themau Trawsbynciol***

*Cyd-destun Lleol
Cenedlaethol
Byd – eang
*Gyrfaoedd a phrofiadau gwaith
*Amrywiaeth
*Hawliau Plentyn
Perthnasau Rhywioldeb ac Addysg

**Beth?**
6 Maes Dysgu
Sgiliau Trawsgwricwlaidd
Sgiliau'r 4 diben
Cyd-destun lleol a chenedlaethol

Cymreictod
Cynefin
Dysgu Dilys
Pwrpas ac Uchelgais
Hawliau a Chydraddoldeb
Meddwl Beirniadol
Cysylltiad Emosiynol

**Hyrwyddo annibynniaeth**

**Sut?**
Datganiadau'r hyn sy'n bwysig
Disgrifiadau Dysgu
Egwyddorion Cynnydd

**Gwynebu her a chymryd cyfrifoldeb**

**Pam?**
Dysgu ystyrlon a chynhwysol i bawb
Dysgu ysgogol gyda'r plentyn yn ganolig i'w ddysgu

**Adeiladu ar sgiliau blaenorol**

*O drin daear â chariad,*
*Ym mhob pren y mae parhad.*

*Cyd-ddysgwn i greu'r dyfodol.*

**Gweledigaeth Ysgol y Bannau** ***Ysgol y Bannau school vision***

Rydym am greu disgyblion iachus, cytbwys ac uchelgeisiol sy'n tyfu i fod yn ddinasyddion egwyddorol o'r byd.
*Together, we will nurture balanced, healthy, ambitious pupils, who will grow to be principled, compassionate citizens of the world.*

**Annogwn ein disgyblion i ymfalchïo yn eu sgiliau amlieithog ac i fod yn faner i'r iaith a diwylliant Cymreig yn yr ardal.**
***We will encourage our pupils to take pride in their multilingual abilities and be ambassadors for Welsh language and culture.***

Parchwn ein byd naturiol a gweithiwn yn ddiflino i'w hamddiffyn a'i gwarchod ar gyfer y dyfodol.

*We will respect our natural world and work hard to safeguard it for the future.*

**Cynigwn gyfle cyfartal i bawb, a chefnogwn bob plentyn o fewn amgylchedd cynwysiedig a theg. Byddwn yn cefnogi diddordebau a doniau pob unigolyn, gan gofio mai un siawns caiff ein disgyblion o'r addysg orau yn yr ysgol gynradd.**
***We will offer equal opportunities to all children and build, foster and encourage an environment of equity and inclusion. We will nurture the passions and talents of each individual child, recognising that our pupils have just one chance to receive the very best primary education.***

Annogwn ein disgyblion i fod yn annibynnol ac yn hyderus ac i roi cynnig ar bethau heb ofni methu, a pheidio cael eu trechu gan gamgymeriadau, ond i addasu a dysgu trwyddynt.

*We will encourage our pupils to be confident and independent, to try without fear of failing and to not be discouraged by mistakes, but instead see them as opportunities to grow and learn.*
**Gwarchodwn gyda balchder, ein hiaith a'n diwylliant a pharchwn chredoau a thraddodiadau eraill.**

***We will proudly celebrate our culture and heritage, whilst always respecting those of others.***

Gwnewn deulu'r Bannau yn rhan annatod o'n cymuned a'r gymuned yn rhan annatod ohonom ni .
*We will make Ysgol y Bannau an integral part of the community and the community an integral part of us.*

**Datganiad Cenhadol yr Ysgol / *School Mission Statement***

"Cyd-ddysgwn i greu'r dyfodol"
Ein nod yw darparu'r addysg orau bosib , mewn awyrgylch gofalgar a hapus er mwyn datblygu unigolion hyderus. Rydym yn awyddus i annog y plant i werthfawrogi eu Cymreictod. Gobeithiwn y bydd ein disgyblion yn datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i lwyddo yn y dyfodol,
*We aim to provide the best possible education for our children in a caring and happy environment, in order to nurture confident individuals. We encourage our children to appreciate their language and culture. We hope that our children will develop skills which will lead to their successful futures.*

**Cyfeillion Teulu'r Bannau/ Friends of the Bannau Family**
*Our school has benefited from the continuous support of our Cyfeillion. During 2024/25 events were held to enhance the opportunities for our children. These included a well being day, Children's rights day, school discos, and the opening of our new outdoor classroom. On behalf of the Governors, thank you all for your dedication, time and commitment.*

Anghenion Dysgu Ychwanegol Additional Learning Needs
Yn unol â pholisi'r ysgol, darperir cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth neu cânt eu haddysgu'n unigol neu mewn grwpiau bach. Hefyd rydym yn defnyddio arbenigedd allanol pan fo hynny'n briodol, ac yn cefnogi'r disgyblion gyda Darpariaeth Dysgu Cyffredinol a Chynllun Datblygu Unigol. In accordance with the school's policy, additional support is provided to pupils in the classroom, or they are taught individually or in small groups. We also use external expertise when that is appropriate and support the pupils with an Individual Development Plan.

**Polisi Amddiffyn Plant / Child Protection Policy**
Sail Polisi Amddiffyn Plant yr ysgol yw'r canllawiau cenedlaethol. Yr aelodau o staff penodol ar gyfer amddiffyn plant yw Marion Evans a Kathryn Elias. Mae gan aelod penodol o'r corff llywodraethu Donna Watson, gyfrifoldeb am oruchwylio prosesau diogelu yr holl ddisgyblion. The basis of the school's Child Protection Policy is the national guidelines. The members of staff specifically for child protection are Marion Evans and Kathryn Elias. A specific member of the governing body Donna Watson, has responsibility for overseeing the safeguarding processes of all the pupils.

**Iaith yr Ysgol**
Yn unol â pholisi Awdurdod Addysg Powys, Cymraeg yw prif iaith addysgu'r ysgol. Mae plant yn cael eu hannog i siarad Cymraeg ar yr iard ac yn ystod gwersi ag eithrio'r gwersi Saesneg.
Welsh is the main teaching language of the school. Children are encouraged to speak Welsh both on the yard and during lessons with the exception of the English lessons.

**Cynlluniau Gweithredu**
Lluniwyd Cynllun Datblygu Ysgol priodol yn unol â chanllawiau'r awdurdod.
Mae cyswllt agos rhyngddo â dogfennau Hunan arfarnu'r Ysgol sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol.
Mae'r ysgol yn monitro effaith ar y safonau a'r ddarpariaeth yn gyson fel rhan o raglen fonitro'r Ysgol.
Mae'r adroddiadau effaith yn cael eu rhannu gyda'r Corff Llywodraethol a Swyddog Her yr Awdurdod.

Action Plans
The School has a Development Plan and it is fully operational.
There is a close link between the school's self-evaluation documents that are reviewed annually. The school is monitoring the impact of the standards and the provision regularly as part of the School's monitoring programme.
The impact reports are shared with the Governing Body and the Authority's Challenge Officer.

Hunanarfarnu a Chynllun Datblygu Ysgol - Prif flaenoriaethau'r ysgol 2024-25
Self-appraisal and School Development Plan- Main School Priorities 2024– 2025

**Blaenoriaeth 1**

Cryfhau sgiliau Ysgrifennu Estynedig ar draws yr ysgol .
Strengthen Extended Writing across the School.

**Blaenoriaeth 2**

Cynyddu effaith gweithdrefnau marcio, adborth ac asesu

**I**ncrease the impact of marking, feedback and assessment procedures.

**Blaenoriaeth 3**

Gwella ansawdd ein haddysgeg a'r amgylchedd ddysgu i ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol

Improving the quality of our pedagogy and learning environment to inspire pupils to become independent learners.

**Blaenoriaeth 4**

Gwreiddio systemau monitro gyda'n holl rhanddeiliaid er mwyn cryfhau system Hunan Arfarnu'r ysgol
Embed monitoring systems with all our stakeholders in order to strengthen the School's Self-Evaluation system.

Blaenoriaeth y Clwstwr: Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru drwy waith clwstwr effeithiol a chynaliadwy

.Cluster Priority: To develop Curriculum for Wales via effective, sustainable cluster working

**Cyngor yr Ysgol**

Arweiniodd y Cyngor weithgareddau codi arian amrywiol gan gynnwys Plant Mewn Angen, Adnoddau I'r Iard. Buont yn codi ymwybyddiaeth am Iechyd meddwl plant drwy drefnu digwyddiadau ar gyfer ddiwrnodau iechyd a lles

School Council

The School Council led various fundraising activities including a fun day of games and cake stall for Children in Need, School Yard fundraising events. They raised awareness about children's mental health by organizing events .

**Ysgolion Iach**

Mae'r ysgol yn rhan o raglen Ysgolion Iach Powys. Anogir disgyblion i fwyta ffrwythau amser byrbryd bore. Mae disgyblion yn y Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn derbyn llaeth am ddim. Mae'r Sir yn paratoi prydau ysgol yn dilyn bwydlen iach a osodwyd gan Gyngor Sir Powys.

Healthy Schools

The school is part of the Powys Healthy Schools Programme. Pupils are encouraged to eat fruit at morning snack times. Pupils in the Reception, Years 1 and 2 classes receive free milk. The County kitchen that prepares the school lunches follows a healthy menu planned by Powys County Council.

**Siarter Iaith Gymraeg**

Prif nod y siarter yw creu a chynyddu defnydd cymdeithasol y plant o'r Gymraeg. Rydym eisiau ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'r Siarter Iaith Gymraeg yn gofyn am gyfraniad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - y disgyblion, cyngor yr ysgol, y staff, y rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned. Gweithiodd y 'Criw Cymraeg' yn effeithiol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol yn ogystal ac yn y gymdeithas.

Welsh Charter The main aim of the charter is to create and increase the children's social use of Welsh. We want to inspire our children and young people to use Welsh in every aspect of their lives. The Welsh Language Charter asks for a contribution from every member of the school community – the pupils, the school council, the staff, the parents, the governors and the community. The 'Criw Cymraeg' worked effectively to promote the use of the Welsh language throughout the school and within the community.

**Cyfleusterau glanhau a thoiled**

Yr ysgol sydd yn gyfrifol am gyflogi 2 glanheuwraig i lanhau'r ysgol. Mae toiledau ar gyfer disgyblion ar wahâno bob oedran.

Cleaning and toilet facilities The school employs 2 cleaners. There are separate toilets for the different ages of children. There are 2 disabled toilets in the School.

**Presenoldeb**

Mae'r ysgol yn dilyn camau pendant i leihau absenoldebau heb ganiatad. Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn medru effeithio ar absenoldebau anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn danfon llythyr i rieni i bwysleisio prydlondeb ac i dynnu sylw at y sefyllfa lle mae rhai yn cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gwarcheidwaid lle mae lefel presenoldeb yn isel neu'n anghyson.

Attendance

The school follows clear steps for reducing the number of unauthorised absences. Pupils who arrive late can affect unauthorised absences. The school sends emphasises punctuality and draws attention to the situation where some take holidays during term time. The school contacts parents/guardians where the attendance level is low or inconsistent.

| | |
|---|---|
| Tymor yr Hydref 2024 | 93.42% |
| Tymor y Gwanwyn 2025 | 95.45% |
| Tymor yr Haf 2025 | 95.22% |
| Y flwyddyn 2024 - 2025 | 94.59% |

**Digwyddiadau'r Flwyddyn**
**The events of the Year**

Ymweliad Mr.Edward Morus Jones









Cawsom llawer o hwyl wrth deithio yn ôl i Gwm Rhyd y Rhosyn gyda Mr.Edward Morus Jones. Braf oedd gallu canu yr hen ffefrynau – megis "Het tri chornel", "Fuoch chi 'rioed yn morio?" a " Mam wnaeth gôt i mi". Diolch yn fawr am brynhawn hyfryd.

Ymweliad Rob Davies

Pleser oedd croesawu y Seren Paralympaidd lleol, Rob Davies, i'r ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando arno'n sisrad am ei brofiadau, yn edrych a rei fedal ariananhygoel ac yn gofyn cwestiynau di-ri iddo. Ysbrydoledig!








Diwrnod Plant y Byd

Ar Dachwedd yr ugeinfed dathlwyd Diwrnod Byd-eang y Plant, diwrnod o weithredu a nodi a mabwysiadu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.
Cafwyd ddiwrnod llawn hwyl a oedd hefyd a neges pwysig. Cawsom y cyfle i hyrwyddo a dathlu hawliau ein plant a fydd yn helpu i adeiladu byd gwell iddyn nhw. Y thêm y flwyddyn hon oedd "Cynhwysiad ar gyfer pob plentyn".
Diolch enfawr i Gyfeillion yr Ysgol a oedd wedi bod wrthi'n paratoi gweithgareddau hwylus ar gyfer yr ysgol. Daeth dwy ymarferwr lleol i arwain ar y diwrnod gyda gweithgareddau meddylgarwch – symud, dawns a chelf.
Bydd arddangosfa o'u gwaith i'w weld yn y Theatr yn gynnar yn y flwyddyn.














Caffi Shwmae Su’mai

Cafwyd fore llawn hwyl yn y Caffi ar ddydd Shwmae Su’mai. Roedd y Muse yn orlawn a phawb yn ymdrechu yn wych i siarad a chymdeithasu yn y Gymraeg.
Diolch o galon am bob cyfraniad o gacennau a bisgedi ar gyfer y bore, a diolch i’r Muse am gael defnyddio’r o’adeilad.
Diolch bennaf i’r Criw Cymraeg dan arweiniad Mrs.Elias am drefnu digwyddiad cymdeithasol llwyddiannus unwaith eto!





Traws Gwlad



Llongyfarchiadau i bawb o flwyddyn 3 i 6 a oedd wedi cymryd rhan yn y trawsgwlad ar safle Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Llongyfarchiadau arbenig i'r criw yma a ddaeth yn y pump cyntaf o fewn eu categoriau oedran. Mae rhedwyr bendigedig yma yn Ysgol y Bannau!



Ymweliad Huw  Daniels



Diolch i Huw Daniels a Louise Hogan am berfformiad hyfryd o  gerddoriaeth Baroque  - roedd pawb wir wedi mwynhau.

Chwaraeon gyda Myfyrwyr Coleg Aberhonddu



Diolch i Rhian Davies am drefnu diwrnod llawn gweithgareddau chwaraeon gyda myfyrwyr Coleg Aberhonddu. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd. Rydym yn edrych ymlaen i wneud hyn eto!



Clocsio gyda Tudur Phillips





Diolch i Menter Brycheiniog a Maesyfed am drefnu diwrnod bywiog ac egniol iawn ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol. Braf oedd croesawu Tudur Phillips – y clocsiwr o fri, i gynnal gweithdai clocsio gyda'n plant. Cafodd y plant hwyl yn ymarfer eu symudiadau, neidio dros yr hances boced a gwylio Tudur Phillips yn dangos ei gamp record byd yn neidio'r gannwyll.



Diwrnod T.Llew Jones



Roedd y plant ieuengaf a'r staff wrth eu boddau yn dathlu diwrnod T.Llew Jones drwy wisgo fel môr lardon!



Cystadleuaeth CogUrdd



Cawsom gystadlu brwd ac roedd y bwyd yn fendigedig! Llongyfarchiadau i Iolo, Isca a Nerys am ddod i'r brig ac i Nerys am fynd ymlaen i'r rownd rhanbarthol yn Llanfair ym Muallt.

Dosbarthu posteri ‘Hapus i siarad Cymraeg’ o amgylch tref Aberhonddu.

Aeth criw o blant bl 5 a 6 am dro o amgylch tref Aberhonddu. Pwrpas yr ymweliad oedd i ddosbarthu posteri mewn siopau a busnesau lle mae staff yn gallu siarad neu yn ddysgwyr Cymraeg. Rydym yn cyd-weithio gyda Menter Brycheiniog ar y prosiect - mae’n nhw wedi creu y posteri hyfryd i ni. Cadwch lygad allan am y posteri pan fyddwch yn siopa yn y dref, a gadewch wybod os ydych yn ymwybodol o unrhyw siop / fusnes sydd â siaradwyr Cymraeg nad ydynt wedi derbyn poster eto! A gwnewch yn siwr eich bod yn manteisio ar bob cyfle i siarad Cymraeg yn Aberhonddu!



Sioe Nadolig – Pantolig!












Cafwyd ddau berfformiad ardderchog gan ein hysgol i ddathlu'r Nadolig. Teitl y sioe oedd "Pantolig!" , gyda chymysgedd o stori Sinderela a Stroi'r y Nadolig. Roedd y perfformaiadu yn wych , gyda pob un plentyn yn canu ac yn actio'n  fendigedig. Am blant dawnus!

Presenoldeb



Dathlwyd bresenoldeb uchel plant yr ysgol yn ystod Tymor yr Hydref. Derbyniodd pob plentyn a phresenoldeb o 96% ac uwch dystysgrif a gwobr bach i ddathlu.
Dyma’r disgyblion sydd wedi mynychu;r ysgol pob dydd – Llongyfarchiadau!

Ymweliad y Welsh Whisperer



Ar ôl prysurdeb Tymor yr Hydref, cawsom y cyfle i ddathlu ein llwyddiannau yng nghwmni'r Welsh Whisperer! Diolch i Fenter Brycheiniog a Maesyfed am drefnu prynhawn arbennig.
Cafodd y plant amser gwych yn canu a dawnsio gan wisgo yn eu denim, crysau siec a'u "fflat caps"!





Yr Hen Galan




Diolch i'r Criw Cymraeg am arwain ein gwasanaeth am yr Hen Galan.

Blwyddyn newydd dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyma yw'n dymuniad ni
Blwyddyn newydd dda i chi!



Eisteddfod ysgol

Llongyfarchiadau mawr i Isca am ennill y gystadleuaeth hon am ysgrifennu stori! Llongyfarchiadau hefyd i Anwyn a ddaeth yn ail a Daphne a ddaeth yn drydydd.





Llongyfarchiadau mawr i Tarell ar ennill ein Eisteddfod ysgol eleni!



Eisteddfod yr Urdd



Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni

Llongyfarchiadau arbennig i'r plant a ddaeth yn fuddugol ac sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd!

Canlyniadau Eisteddfod Rhanbarth 2025

Unawd bl 3 a 4: 2il Evie
Unawd Bl 5 a 6: 3ydd Eleri
Llefaru Bl 3 a 4: 2il Cissy
Unawd llinynnol: 2il Cosima
Unawd piano: 3ydd Isca
Perfformio golygfa: 3ydd a 3ydd
Dawns greadigol: 3ydd
Parti Unsain: 2il
Parti Deulais: 2il

Alaw werin: 1af Llewelyn
Unawd llinynnol: 1af Isca
Llefaru Bl 2 ac iau (D): 1af Gwenna
Grwp llefaru: 1af

Bydd yr eitemau a ddaeth yn gyntaf yn symud ymlaen i'r rownd Genedlaethol ym Mharc Margam!

Bydd yr alaw werin, unawd llinynnol a grwp Llefaru ar ddydd Mawrth, Mai 27ain, a bydd Gwenna yn adrodd ar y dydd Mercher (Mai 28ain). Cadwch y dyddiadau yn rhydd!!






S4C


S4C

Disgo Santes Dwynwen

Pawb yn joio yn y disgo! ♫

Roedd stondin y Criw Mentrus yn boblogaidd iawn yn ystod y disgo Dydd Gwener! Diolch i bawb am gefnogi




Cystadleuthau chwaraeon yr Urdd

Llongyfarchiadau i'n plant a gymerodd rhan yng nghystadleuthau chwaraeon yr Urdd yn ystod Tymor y Gwanwyn – Roeddech chi'n wych!










Paratoi at Ddydd Gwyl Dewi

Cystadleuaeth Posteri Gorymdaith Gwyl Ddewi

Diolch o galon i bawb oedd wedi cystadlu - roedd safon y gystadleuaeth yn wych!
Yn ennill eleni - Delyth, Eleanor ac Alma. Llongyfarchiadau mawr i'r tri!







Aeth rhai o'r criw Cymraeg i'r dref i rannu y posteri gorymdaith ymysg y siopau a busnesau. Roeddent hefyd yn annog cwmniau i gystadlu yn ein cystadleuaeth addurno siop Gwyl Ddewi.





Pleser oedd croesawu plant o rai o ysgolion y clwstwr i ymarfer caneuon yr orymdaith gyda ni. A hyfryd gweld nifer o’n cynddisgyblion o’r ysgol uwchradd! Gwych i’r Criw Cymraeg gael y cyfle i gyd-ganu, cefnogi a chymdeithasu gyda phlant eraill o’r clwstwr.





Gorymdaith Gwyl Ddewi

Bore hyfryd unwaith eto yn gorymdeithio a dathlu y Gymraeg yn nhref Aberhonddu! Diolch i bawb a ddaeth i ymuno â ni! Diolch yn fawr I Mrs.Elias a’r Criw Cymraeg am drefnu diwrnod arbennig unwaith eto eleni.








YSGOL Y
BANNAU





Taith Preswyl









Croesawu Bisged I=i’n hysgol



Prosiect Celf / Art Prosiect

Cafodd Blwyddyn 3 a 4 gyfle bendigedig i weithio yn ein ardal wyllt ar ddiwedd tymor yr Haf . Trefnwyd prosiect gelf a oedd yn dathlu gwaith yr arlunwraig Elsie Eldridge. Dan arweiniad Tanwen Wilkinson, cafodd y plant amser i arsylwi, creu a pherfformio. Dangoswyd gwaith y plant mewn arddangosfa yn Theatr Brycheiniog o dan y teitl - 'Edrychwch, edrychwch, edrychwch ….. a chreu'.


Diolch o galon i Ruth am drefnu y sesiynau i ni, ac i Tanwen, yr arlunydd a fu yn gweithio gyda ni.


























Creu canhwyllau

Daeth Olwen i'n hysgol i helpu'r plant i greu canhwyllau eu hunain. Cafwyd llawer o hwyl wrth ddewis yr arogl a lliw cywir ar gyfer pob cannwyll. Diolch yn fawr i Olwen am ei hamser a' i gwybodaeth.









Cynllun Pontio  - Adleisiau ein Cynefin

Cafodd  ddisgyblion Ysgol y Bannau ddiwrnod arbennig gyda Sioned Eleri Roberts yn ystod Tymor yr Haf. Daeth Sioned i weithio gyda plant blwyddyn 5 a 6 er mwyn  cyfansoddi darn o gerddoriaeth gwreiddiol yn seiliedig ar hanes yr Epynt i gofio ei bod wedi bod yn 85 blynedd ers i ni golli gymdeithas yr Epynt. Cyfansoddwyd darn arbennig, a pherffomiodd y disgyblion eu darn newydd i'r Ysgol gyfan. Yn ogystal â hyn, cafodd eu darn ei recordio a'i ddefnyddio mewn darn o gerddoriaeth o'r enw "Adleisiau ein Cynefin" sydd yn gyfanwaith o gerddoriaeth gwreiddiol gan ysgolion Cyfrwng Cymraeg yr ardal.

Ar ddiwedd y flwyddyn, daeth Olwen Jones , arweinydd y cynllun pontio, a'r arlunwraig  Mhairie Treharne i'n hysgol i gyflwyno poster o'r cynllun. Arno mae côd QR sydd yn eich arwain at y gerddoriaeth arbennig yma – Mae'n wych!

Diolch i Olwen am drefnu gweithgareddau mor arbennig.





Diwrnod o Hwyl gyda Martyn Geraint

Trefnwyd ddiwrnod o Hwyl yng nghwmni Martyn Geraint yn ystod Gwyliau'r Haf. Cafwyd amser bendigedig yn gwrando ar straeon doniol, canu, gwneud gweithgareddau crefft ac – wrth gwrs – cael ein chwistrellu gan Martyn! Diolch o galon i Olwen, Mudiad Meithrin a Tudur ac Emyr, swyddogion Menter Brycheiniog a Maesyfed am drefnu!














mudiad
meithrin
08000 11 22 33

Adroddiad Cyllid 2024 – 2025
Budget Report

| | |
|---|---|
| Employees | 445,925.00 |
| Premises related | 95,777.00 |
| Supplies and Services | 20,275.00 |
| Total Expenditure | 561,977.00 |

Total Surplus Contingency

| Dyraniadau / Grant Allocations | |
|---|---|
| Professional Learning Grant | 2,200.00 |
| ALN Implementation Grant | 3,088.39 |
| PDG | 10,350.00 |
| EY PDG | 2,300.00 |
| School Standards Grant | 5,881.12 |
| ALN Implementation Grant | 1,491.64 |

Ymgymrodd yr ysgol a'r gweithgareddau canlynol i gefnogi'r disgyblion.......
Hyfforddiant , Staffio , Monitro , a Buddsoddi mewn adnoddau ar gyfer gweithgareddau cefnogi iaith, rhifedd a lles.
The school undertook the following activities in order to support our pupils......
Training, Staffing, Monitoring and investment of resources to develop language, numeracy and wellbeing support activities.